CYFEILLION CERDD IEUENCTID GWYNEDD

CYLCHLYTHYR – IONAWR 2011

Annwyl Aelod

Dyma ychydig o wybodaeth am ein gweithgareddau diweddaraf.

Cerddorfeydd Rhanbarthol a Thraws-Sirol- Mae Cyfeillion Cerdd Ieuenctid Gwynedd yn parhau i baratoi lluniaeth yn wythnosol ac yn fisol yn yr ymarferion yn Ysgol Friars.Diolch i'r rhai ohonoch a gefnogodd ein bore coffi ar 20fed Hydref. Roedd yn gyfle gwych i rieni gyfarfod dros baned ac yn help i godi mwy o arian. Diolch arbennig hefyd i'n gwirfoddolwyr newydd am eu cymorth. Os oes gennych ddiddordeb ein helpu, mae manylion aelodau'r pwyllgor ar waelod y dudalen.

Cyrsiau Haf GYWM-Roedd y cyrsiau yn wahanol i'r rhai blaenorol, ond yr un mor boblogaidd a llwyddiannus.Roedd y cerddorion a'r gynnulleidfa wedi mwynhau'r cyngherddau ar ddiwedd y cyrsiau. Rhoddwyd £3,500 gan CCIG tuag at eu rhedeg.

Cwrs Roc a Phop- Cwrs deuddydd oedd hwn, gyda chyngerdd yn Neuadd PJ, Bangor ar y noson olaf. Bu'r Cyfeillion yn brysur yn paratoi lluniaeth a gwerthu tocynnau ar y drysau.

Cwrs Symffonig Glanllyn-Cwrs preswyl oedd hwn , gyda chyngerdd i rieni ar ddiwedd y cwrs. Diolch arbennig i'r holl diwtoriaid am eu hymroddiad ac i Mari, Ann a Gwenda am yr holl waith trefnu.

Ymddiriedolaeth John Thorpe-Dyma'r chweched gwaith i CCIG gynnig bwrseriaethau gan yr ymddiriedolaeth. Aeth y wobr grwp i Celloscope i redeg cwrs yn y Galeri. Derbyniodd Elen Hydref fwrsari unigol tuag at gostau i fynychu Cwrs Meistri i Delynwyr yn y Swisdir. Cafodd ei dewis yn unawdydd y flwyddyn. Un telynor/es sy'n cael ei dewis yn flynyddol ar y cwrs!

Y dyddiad cau am bwrseriaeth 2011 yw Mawrth 4ydd (grŵp) ac Ebrill 28ain (ceisiadau gan unigolion).

Cerddorfa Ieuenctid Gogledd Cymru-Rhoddwyd arian i unigolion o Wynedd tuag at gostau i fynychu cwrs ym mis Awst.

Ensemble Cymru-Mae'r Cyfeillion wedi cytuno i roi cymorth ariannol i brosiect diweddaraf EC drwy'r "Big Give". Eu bwriad yw i recordio perfformiad byw o "Pedr a'r Blaidd" yn y Gymraeg. Mae Rhys Ifans wedi cytuno i adrodd y stori yn ddi-dâl. Am mwy o fanylion ewch ar w□fan EC- www.ensemblecymru.co.uk

Cyngerdd Nadolig GYWM-Cafwyd noson arbennig yn y Gadeirlan, gyda pherfformiadau arbennig gan Côr Ieuenctid Ynys Môn ,Côr Hŷn Gwynedd a Môn, Côr Telyn a Grŵp Hŷn Chwythbrennau'r Gwasanaeth.

Aelodaeth- Os ydych yn dymuno ail-ymaelodi, amgaeïr manylion yn yr atodiad. Yn y cyfamser hoffem ddiolch yn fawr i chwi am gefnogi ein helusen hyd yma a dymuno'r gorau i chi yn y flwyddyn sydd i ddod. Bydd ein pwyllgor nesaf nôs Wener 21ain Ionawr, os oes gennych rhywbeth yr hoffech i ni ei drafod.

Digwyddiadau i ddod- Cyngerdd Blynyddol GYWM yn Neuadd Pritchard Jones, Bangor ar nôs Sul 3ydd Ebrill. Am mwy o wybodaeth ewch ar w□fan GYWM- cerdd.com

Pwyllgor-

Cadeirydd ac Ysgrifennydd John Thorpe- Sian Turner 01248 600316 sianturner@hotmail.com

Ysgrifennydd Cyffredinol- Carol Williams 01248 370314 tyddynheilyn@hotmail.com

Trysorydd ac Aelodaeth- Lesley Thompson wern@btinternet.com

Ysgrifennydd Cofnodion-Carrie Rimes

Aelodau'r Pwyllgor- Rita Roberts, Lucy Clement-Evans, Kakali Mitra.